Rhagfyr / December 2019

GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Health Education and Improvement Wales (HEIW

Diweddariad rheolaidd yw hwn i bartneriaid a rhanddeiliaid ar ddatblygiad Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gan ei Brif Weithredwr, Alex Howells.

Helpwch ni i ledaenu'r neges am Addysg a Gwella Iechyd Cymru drwy gylchredeg y bwletinau hyn i'r holl staff.

This is a regular update for partners and stakeholders on progress from Health Education and Improvement Wales (HEIW) from its

Chief Executive, Alex Howells.

Please help to spread the word about Health Education and Improvement Wales by circulating these bulletins to all staff.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'n cydweithwyr a'n partneriaid i gyd.

Wishing all our colleagues and partners a very Happy Christmas and New Year.

Annwyl bawb,

Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant 20/21

Mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo ein cynllun i gynyddu addysg a hyfforddiant y gweithlu meddygol a deintyddol ôl-raddedig a'r grwpiau proffesiynol iechyd ehangach yn 2020-21. Mae hyn yn golygu buddsoddiad cynyddol o £ 16.4 m ac mae'n parhau â'r duedd o ran buddsoddiad uwch a ysgogwyd gennym dros y 6 blynedd diwethaf.

Mae'r cynllun yn gweld cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cael swyddi gan gynnwys: nyrsio iechyd meddwl ac oedolion, bydwreigiaeth, radiograffeg, ffisiotherapi a gwyddor gofal iechyd. Ynghyd â meddygaeth, mae cynnydd yn nifer yr hyfforddeion ar draws gwasanaethau gan gynnwys: meddygaeth frys, meddygaeth gofal dwys, radioleg glinigol a seiciatreg henaint.

Cyfraddau llenwi yn 19/20

Mae ein cyfraddau llenwi ar draws yr ystod o addysg yr ydym yn ei

gomisiynu wedi bod yn gadarnhaol iawn eleni. Ar gyfer proffesiynau iechyd rydym yn rhagweld y bydd y gyfradd lenwi o leiaf 95% yn dilyn dilysu, ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r gwaith caled sy'n gysylltiedig â hyn gan ein partneriaid SAU. Cyfraddau llenwi deintyddol ôl-raddedig yw 93% a meddygol yw 95%, gan gynnwys recriwtio 186 o hyfforddeion arbenigol mewn meddygyniaeth deuluol. Rydym hefyd yn rhagweld cyfradd lenwi gadarnhaol iawn ar gyfer ein rhaglen fferylliaeth cyn cofrestru sydd bellach â'r nodwedd ychwanegol o'r dull aml-sector. Mae hyn oll yn sylfaen dda inni ar gyfer y cynnydd yr ydym yn ei gynllunio y flwyddyn nesaf.

Cyllid ar gyfer optometreg ôl-raddedig

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ein cynnig i gynyddu'r cyllid ar gyfer modiwlau ôl-raddedig mewn optometreg. Bydd hyn yn galluogi optometryddion sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol i ymestyn sgiliau a darparu gwasanaethau lleol mewn tri maes allweddol: Rhagnodi Annibynnol, Glawcoma a Retina Meddygol. Drwy gael y cymwysterau uwch hyn, gall optometryddion reoli mwy o gleifion yn ddiogel ac yn fwy effeithiol yn y gymuned, gan helpu i ryddhau capasiti ysbytai ar gyfer y rhai hynny sydd â chyflyrau llygaid mwy cymhleth neu ddifrifol.

Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Diolch i bawb a roddodd adborth i ni ar y ddogfen ymgynghori ddrafft. Rydym wedi cwblhau'r strategaeth ddrafft i'w hystyried gan Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru ar 16 Rhagfyr a Bwrdd AaGIC ar 19 Rhagfyr. Yna, caiff y strategaeth ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w chwblhau a'i lansio. Edrychwn ymlaen at ddatblygu cynlluniau gweithredu yn y dyfodol agos.

Y wybodaeth ddiweddaraf: Adolygiad strategol o addysg broffesiynol ym maes iechyd

Mae'r adolygiad o addysg gofal iechyd israddedig bellach wedi dod i ben. Rydym yn falch o weld bod llawer o'r themâu sy'n codi o'r adolygiad yn cyd-fynd â'r rhai yn strategaeth ddrafft y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r themâu allweddol yn cynnwys: cael gwell cyfatebiaeth rhwng y 'lotiau' lleoedd addysg ac anghenion y boblogaeth ledled Cymru; ehangu modelau darparu gwahanol gan gynnwys dysgu o bellter a dysgu gwasgaredig; gofynion rhyngbroffesiynol penodol; a newidiadau i'r cymorth i fyfyrwyr mewn sefyllfa lleoliadau.

Mae'r Gweinidog wedi cytuno i raddau'r bwrsari am flwyddyn arall felly byddwn yn ystyried hyn yn ein camau nesaf.

Strategaeth arweinyddiaeth

Mynychodd dros 275 o gynrychiolwyr o bob rhan o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ein cynhadledd ymgysylltu gyntaf ar arweinyddiaeth.
Cyflwynodd yr Athro Michael West lais pwysig ac ysbrydoledig, gan rannu tystiolaeth i gefnogi'r broses o sefydlu diwylliant arweinyddiaeth ar y cyd a thosturiol ledled Cymru. Drwy gydol y dydd cafodd y cynadleddwyr gyfleoedd i gyfrannu eu barn a'u syniadau ac mae'n glir iawn o'u hymatebion ein bod yn barod i groesawu arweinyddiaeth ar y cyd a thosturiol.
Bydd y ffrydiau gwaith nawr yn adeiladu ar y safbwyntiau a'r syniadau hyn wrth ddatblygu'r strategaeth arweinyddiaeth a'r fframwaith gweithredu. Os hoffech chi ymrwymo i unrhyw rai o'r ffrydiau gwaith, cliciwch yma

Mae 'rhestr chwarae' o adnoddau o'r gynhadledd wedi'u creu drwy'r Porth Arweinyddiaeth a gellir eu gweld yma.

Diweddariad Eduroam

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda gwasanaeth gwybodaeth GIG Cymru ar ateb posibl i wneud Eduroam yn gydnaws â system ddiogel GIG Cymru. Eduroam oedd y system mynediad rhyngrwyd crwydrol a ddarparwyd gan Brifysgol Caerdydd ac a ddefnyddiwyd gan hyfforddwyr meddygol a hyfforddeion cyn sefydlu AaGIC. Rydym bellach wedi cyrraedd y cam lle rydym yn barod i brofi'r ateb hwn. Yn dibynnu ar ganlyniad y prawf byddwn yn pennu'r camau nesaf a pha mor gyflym y gallwn gyflwyno hyn.

Sioe Deithiol AaGIC

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi cwrdd â thros 300 o bobl wrth i sioe deithiol AaGIC deithio ledled Cymru i ymgysylltu'n benodol â myfyrwyr, hyfforddeion a staff sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant yn y GIG. Bu'r sgyrsiau yn llawn gwybodaeth ac yn heriol, gan ddangos i ni lle'r ydym ar y trywydd iawn a rhoi rhyw syniad inni gnoi cil arno a fydd yn dylanwadu ar ein gwaith wrth symud ymlaen.
Bydd y sioe deithiol yn ailddechrau yn 2020 gydag ymweliadau â Chwm Taf Morgannwg ar 6 Chwefror a Chaerdydd a'r Fro ar 10 Mawrth. Byddwn hefyd yn trefnu mwy o ymweliadau â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ond ar wahanol safleoedd eleni. Gellir dod o hyd i fanylion ar ein gwefan.

Datblygiadau gwasanaeth

Dolur gwddf? Nawr gallwch weld eich fferyllydd
Bydd cleifion sy'n dioddef o ddolur gwddf (gwddwg tost) yn gallu cael cymorth a chyngor ar eu stepen drws y gaeaf hwn gan fferyllwyr cymunedol. Erbyn diwedd mis Ionawr bydd 400 o fferyllwyr cymunedol yng Nghymru wedi cael eu hyfforddi i ddarparu gwasanaeth prawf a thrin dolur gwddf, gan arbed trip i'w meddygfa i filoedd o gleifion. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi bod yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd i gynnig y

sesiynau hyfforddiant sgiliau clinigol hyn ledled Cymru.

Menter newydd i helpu timau deintyddol gyda diagnosis cynnar o ganser y geg

Mae pecyn cymorth addysgol newydd a luniwyd i helpu timau deintyddol i atal a nodi canser y geg wedi cael ei lansio gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Gall holl aelodau'r tîm ymarfer deintyddol ddefnyddio pecyn cymorth newydd AaGIC, sydd wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â thimau deintyddol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd – gan gynnwys deintyddion, nyrsys deintyddol, hylenwyr a thechnegwyr-er mwyn sicrhau ymagwedd tîm cyfan effeithiol at ofal cleifion.

Cofion cynnes

Alex Howells
Prif Weithredwr, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Dear all,

Education and Training Commissioning Plan 20/21

The Minister has approved our plan to increase education and training of the postgraduate medical and dental workforce and the wider health professional groups in 2020-21. This represents an increased investment of £16.4m and continues the trend in increased investment we have driven over the last 6 years.

The plan sees an increase in the number of student positions including: adult and mental health nursing, midwifery, radiography, physiotherapy and healthcare science. Plus in medicine an increase in the number of trainees across services including: emergency medicine, intensive care medicine, clinical radiology and old age psychiatry.

Fill rates in 19/20

Our fill rates across the range of education we commission have been very positive this year. For health professions we anticipate the fill rate to be at least 95% following validation, and we are very grateful to the hard work involved in this from our HEI partners. Postgraduate dental fill rates are 93% and medical are 95% including the recruitment of 186 GP Speciality Trainees. We are also anticipating a very positive fill rate for our pre registration pharmacy programme which now has the added feature of the multi sector approach. This all stands us in good stead for the increases we are planning next year.

Funding for postgraduate optometry

Our proposal to increase funding for postgraduate modules in optometry has been agreed by Welsh Government. This will enable optometrists working in primary care to extend skills and deliver local services in three key areas: Independent Prescribing; Glaucoma and Medical Retina. By obtaining these higher qualifications, optometrists can manage more patients safety and effectively in the community, helping to free up hospital capacity for those with more complex or serious eye conditions.

Workforce Strategy for Health and Social Care

Thank you to everyone who gave us feedback on the draft consultation document. We have completed the draft strategy for consideration by the

Social Care Wales Board on 16 December and the HEIW Board on 19 December. The strategy will then be submitted to Welsh Government to finalise and launch. We look forward to developing implementation plans in the near future.

Update: Strategic review of health professional education

The review of undergraduate healthcare education has now concluded. We are pleased to see many of the emerging themes from the review align with those in the draft Workforce Strategy for Health and Social Care.

Key themes include: getting a better match between the 'lotting' of education places and population needs across Wales; expanding different models of delivery including distance and dispersed learning; specific inter-professional requirements; and changes to the support for students in placement settings.
The Minister has agreed to extend the bursary for another year so we will be factoring this into our next steps.

Leadership strategy

Our first leadership engagement conference was attended by over 275 delegates from across the health and social care sectors. Professor Michael West delivered an inspiring key note speech sharing evidence to support the establishment of a collective and compassionate leadership culture across Wales. Throughout the day delegates had opportunities to contribute their views and ideas and it is very clear from their responses we are ready to embrace collective and compassionate leadership.

Workstreams will now build upon these views and ideas in the development of the leadership strategy and implementation framework. If you would like to sign up to any of the workstreams please click here.

A ‘playlist’ of resources from the conference has been created via the Leadership Portal and can be accessed here.

Eduroam update

Over the past few months we’ve been working with the NHS Wales Information Service on a potential solution to make Eduroam compatible with the NHS Wales secure system. Eduroam was the roaming internet access system provided by Cardiff University and used by medical trainers and trainees prior to the establishment of HEIW. We are now at the stage where we are ready to test this solution. Depending on the outcome of the test we will determine next steps and how quickly we can roll this out.

HEIW Roadshow

Over the past few months we have met over 300 people as the HEIW Roadshow has travelled across Wales to engage specifically with students, trainees and staff involved in the delivery of education and training in the NHS. Conversations have been informative and challenging, showing us where we are on the right track and giving us some food for thought which will influence our work going forwards.

The Roadshow will resume in 2020 with visits to Cwm Taf Morgannwg on 6 Feb and Cardiff and Vale on 16 March. We will also be scheduling more visits to health boards and trusts but at different sites to this year. Details can be found on our website.

Service developments

Sore throat? Now you can see your pharmacist
Patients suffering with sore throats will be able to get help and advice on

their doorstep this winter from community pharmacists. By the end of January 400 community pharmacists in Wales will have been trained to provide a Sore Throat Test-and-Treat service, saving thousands of patients a trip to their GP surgery. Health Education and Improvement Wales (HEIW) has been working closely with health boards to offer these clinical skills training sessions across Wales.

New initiative to help dental teams with early diagnosis of mouth cancer

A new educational toolkit designed to help dental teams prevent and identify mouth cancer has been launched by Health Education and Improvement Wales (HEIW). HEIW's new toolkit, which has been developed in collaboration with dental teams at Public Health Wales and Cardiff University, can be used by all members of the dental practice team - including dentists, dental nurses, hygienists and technicians – to ensure an effective whole team approach to patient care.

Best wishes

Alex Howells

Chief Executive, Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Os nad ydych eisiau dderbyn y diweddariad rheolaidd hwn e-bostiwch heiw.communications@wales.nhs.uk os gwelwch yn dda.

If you do not want to receive this regular bulletin please email heiw.communications@wales.nhs.uk

Cymraeg English Cymraeg English

Hawlfraint © AaGIC / GIG Cymru